

ECGE4001P– Portffolio o Dasgau

Tasgau Asesu

Rhan 1

Mae'r paragraff isod yn cynnwys nifer o gamgymeriadau. Ail-ysgrifennwch y paragraff er mwyn dangos eich dealltwriaeth o:

- ***Ddefnydd o iaith gywir a ffurfiol, a disgwylir fel rhan o arddull academiaidd***
- ***Sillafu cywir***
- ***Ddefnydd cywir o atalnodi yn cynnwys atalnod, atalnod llawn a chollnod***
- ***Gywirdeb gramadegol***

Yn Gwlad-y-la a llefydd arall fel 'na, maen nhw'n meddwl bod e'n rili pwysig i gael plant i warae mas. Mae rhai pobl wedi sgwennu papurau i'r llywodraeth sy'n dweud bod tu fas yn dda i bobl bach. Yn y canllawiau cwricwlwm, maen nhw'n neud peth mawr mas of dysgu tu allan fel peth da I neud plant meddwl yn dda ambiti'r byd naturiol, ac yn rhywle ti'n gallu neud pethau fel ymarfer corff a bywyd iachus achos dyna beth mae Norodahl and Johannesson (2013) yn dweud.

Mae'r pwyslais yma wedi digwydd am achau yn Gwlad-y-la am bobl bach oed 1 I chwech ac maen nhw'n warae tu mas trwy'r amser ond mae plant chwech I 16 dim ond yn gallu mynd mas gyda mêts nhw weithiau pan mae'n amser chwarae. Ni ddim yn gwybod lot am biti beth mae athrawon yn neud tu mas I helpu dysgu ond mae siŵr o fod yn mynd i fod yn wahanol dibynnu ar ba athro ti'n cael neu rywbeth. Ond mae na arwyddion yn y wlad bod athrawon yn mynd mas I chware mwy na o'n nhw arfer neud ac yn y brif dref Reyjkavick mae saith deg % o ysgols yn dweud bod nhw'n defnyddio addysg tu mas eithaf lot (Oladottir, 2008).

Addasiad o:

Noradahl, K. and Johannesson, I. (2014) 'Icelandic teachers' views of using the outdoors' *Education 3-13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education*. Vol 44, No. 4, September 2014, 391-406.

Rhan 2a

Mae'r paragraff isod yn cynnwys nifer o gamgymeriadau. Ail-ysgrifennwch y paragraff er mwyn dangos eich dealltwriaeth o:

- ***Ddefnydd o iaith gywir a ffurfiol, a disgwylir fel rhan o arddull academiaidd***
- ***Sillafu cywir***
- ***Ddefnydd cywir o atalnodi yn cynnwys atalnod, atalnod llawn a chollnod***
- ***Gywirdeb gramadegol***
- ***Ddefnydd ofalus o gonfensiynau cyfeirnod Harvard.***

Bydd y traethawd yma am bitu ysgolion coedwig. Deffiniad o ysgol coedwig sydd wedi cael ei gwneud gan Forest School Network yw 'it is an inspirational process that offers children, young people and adults regular opportunities to achieve and develop confidence and self esteem through hands on learning experiences in a woodland environment'. Murray and O'Brien 2006.

Mae pobl yn becho tamaid bach am bitu pobl fach yn ysgol sydd ddim yn cael mynd mas i fforest neu lefydd gwyrdd fel rhieni nhw achos bod gyd o rieni nhw yn meddwl bydd rhywbeth drwg yn digwydd ac mae lot maen nhw'n gallu neud tu mewn dyddiau yma a dyna beth mae O'Brien a Murray yn meddwl. Mae lot o ymchwil yn dweud os nage nhw'n mynd pan mae nhw'n bach byddant nhw ddim yn mynd pan maen nhw wedi tyfu i'w hysgol mas ar fanteision corfforol ac emosiynol o fod yn natur. Ward Thompson and Aspinall and Bell and others 2004. Achos bod dysgu tu mas yn rili wahanol i ddysgu mewn awyrgylch dosbarth mae llywodraeth cymru yn annog athrawon i neud ysgol coedwig yn ysgolion ei hunain, enwedig cyfnod sylfaen.

Rhestr Cyfeirnod:

welsh assembly government. Outdoor Learning Handbook. Cardiff: 2009. WAG.

Ward Thompson, C., Aspinall, P., Bell, S., Findlay, C., Wherrett, J. and Travlou, P. Open space and social inclusion: Local woodland use in central Scotland. Report to the Forestry Commission, Edinburgh, 2004.

2006. E. O'Brien and R. Murray, A marvellous opportunity for children to learn: A participatory evaluation of Forest School in England and Wales, Farnham: Forest Research.

Rhan 2b

Atebwch y cwestiynau yma yn llawn.

1. Os nad ydych yn cydnabod ffynhonnell eich gwybodaeth wrth gyflwyno gwaith academiaidd, gallech gael eich cyhuddo o _____? Pam ei fod yn bwysig i fyfyrwyr osgoi hyn?
2. Mae angen cyfeirnod wrth ddefnyddio dyfyniad uniongyrchol yn unig. Ydy hyn yn wir neu'n anwir? Esboniwch eich ateb.
3. Mae Wikipedia yn lle defnyddiol i edrych am wybodaeth am eich aseiniad academiaidd. Esboniwch, gyda rhesymau, os ydych yn credu bod hyn yn wir neu'n anwir.
4. Ysgrifennwch gyfarwyddiadau ar gyfer canllawiau cyfeirnod sy'n esbonio sut i gyflwyno diffiniad hir.
5. Esboniwch sut allwch ddechrau ymchwilio ar gyfer aseiniad academiaidd. Rhestrwch pum ffynhonnell a fyddai'n dderbyniol ar gyfer astudio academiaidd.

Rhan 3

Ysgrifennwch ymateb beirniadol i erthygl.

Strwythuro eich ymateb:

Dechreuwch gyda **chyflwyniad** byr o'r erthygl.

- Gallwch gynnwys ychydig o frawddegau agoriadol sy'n enwi'r awduron) a'r teitl cyn esbonio'n fras prif bwnc y testun.
- Beth yw pwrpas y testun?

Crynhoi'r erthygl.

- Beth yw'r prif ddarganfyddiad neu ddadl yn yr erthygl?
- Beth yw pwrpas yr awdur trwy'r darn? (Tip – nid yw hyn pob tro yn amlwg. Cofiwch 'darllen rhwng y llinellau'. Efallai gall rhai esiamplau cefnogi eich esboniad).

Ymatebwch i **strwythur** yr erthygl. Meddyliwch am y ffordd mae'r erthygl wedi ei threfnu – efallai bod hyn wedi cael ei wneud yn bwrpasol i helpu'r darlennydd trefnu ei meddwl, neu hyd yn oed i berswadio'r darlennydd: Ystyriwch:

- Defnydd paragraffau
- Hyd baragraffau
- Cysylltiadau rhwng paragraffau
- Defnydd ffigyrau ac ystadegau
- Defnydd atodiadau.

Ymatebwch i **iaith** yr erthygl. Ystyriwch beth sy'n addas ar gyfer gynulleidfa'r ysgrifennydd (e.e.. arbenigwr/academaidd)

- Arddull – ffurfiol, anffurfiol
- Hawdd/anodd i ddarllen
- Gywirdeb
- Defnydd iaith berswadiol
- Defnydd iaith wrthrychol
- Defnydd iaith oddrychol.

Edrychwch yn fanwl ar y **rhesymeg** a'r **dystiolaeth** a ddefnyddir. Gallwch ystyried y cwestiynau yma i'ch cefnogi:

- Oes yna broblem glir, datganiad neu hypothesis?
- Beth mae'r erthygl yn ei honni?
- Ydy'r ddadl yn gyson?
- Pa fath o dystiolaeth a ddibynnir arno?
- Pa mor ddibynadwy a dilys yw'r dystiolaeth?
- Pa mor effeithiol yw'r dystiolaeth mewn cefnogi'r ddadl?
- Beth yw'r casgliad?
- Ydy'r casgliadau yn gywir?

Ysgrifennwch **gasgliad**. Mae hwn fel arfer yn eithaf byr.

- Beth yw eich barn chi?
- Cyflwynwch unrhyw argymhellion.
- Os oes angen, esboniwch eich rhesymau dros eich barn yn fwy manwl.
Mae hwn yn gallu helpu eich ateb i fod yn deg ac yn rhesymol.
- Ar y cyfan, ydy hwn yn erthygl academiaidd addas?

Ysgrifennwch **restr cyfeirnod** **gywir**. Mae angen cynnwys yr erthygl ei hun yn y rhestr, ynghyd ag unrhyw darllen arall rydych wedi gwneud er mwyn ymateb i'r dasg.